**Cyngor Partneriaeth Cymru – 17 Mawrth 2025**

**12.30 - 14.30 drwy Teams**

## Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

**Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau.
2. Cyn dechrau trafod prif eitemau'r agenda, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad democratiaeth llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mawrth yn Stadiwm Dinas Caerdydd, gan bwysleisio effaith gadarnhaol trafodaethau a phrofiadau dysgu a rennir.

## Eitem 1 ar yr agenda: Newid Hinsawdd – diweddariad ac argymhellion Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol

**Dan arweiniad y Cynghorydd Lis Burnett, Arweinydd, Cyngor Bro Morgannwg a Tim Peppin CLlLC**

3. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet y diweddariad rheolaidd ar waith y Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol a Rhaglen Cymorth Hinsawdd CLlLC. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd arweinyddiaeth ac ymgysylltu i sicrhau bod ystyriaethau newid hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau dyddiol a phenderfyniadau.
4. Yn rhinwedd ei rôl fel llefarydd ar ran y Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol, siaradodd y Cynghorydd Lis Burnett am y cynnydd da a wnaed yn erbyn ymrwymiad ac ymgysylltiad cynghorau yng Nghymru i gyrraedd targedau 2030.
5. Rhoddodd Tim Peppin ragor o fanylion am y cynnydd a wnaed, gan gynnwys gwaith grwpiau tasgau a gorffen a materion ymarferol sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid i fflydoedd trydan.
6. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet gyllid parhaus ar gyfer Rhaglen Cymorth Hinsawdd CLlLC a nododd argymhellion y Panel. Cytunodd y Cyngor Partneriaeth ar yr argymhellion, gydag aelodau'n cydnabod y cynnydd a'r pwyntiau allweddol yn y papur gan gynnwys bod aelodau'r cyngor yn mynd ati i hyrwyddo'r gwaith hwn o fewn eu sefydliadau ac ar draws rhwydweithiau, gan gyflymu'r defnydd a'r cynnydd.
7. Cyfeiriwyd at Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol fel enghraifft ardderchog o gydweithio a dangos arweinyddiaeth gan y Prif Weithredwyr arweiniol ar gyfer pob maes gwaith.
8. Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddariad yn benodol ar addasu i newid yn yr hinsawdd yn y cyfarfod nesaf.

*Oherwydd bod y Prif Weinidog yn rhedeg yn hwyr, gohiriwyd eitem 2 ar yr agenda. Cychwynnwyd ar eitem 3 ar yr agenda nes i'r Prif Weithredwr gyrraedd.*

## Eitem 2 ar yr agenda – Trafodaeth gyda'r Prif Weinidog

**Dan arweiniad Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog**

9. Mynegodd y Prif Weinidog ei diolchgarwch am y gwaith a wnaed gan lywodraeth leol mewn amgylchiadau anodd.

10. Tynnodd y Prif Weinidog sylw at y pwyntiau allweddol canlynol mewn perthynas â'r newid yn llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2024:

- rhoddodd y newid gyfle i ailosod ac adeiladu ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- roedd ymrwymiad i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith
- nodwyd y pwysau chwyddiant parhaus ond, er ei fod yn llai na'r hyn a ddymunwyd, roedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn ei chynnydd mwyaf mewn cyllid gan Lywodraeth y DU ers datganoli.
- mae yna feysydd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno yn eu cylch, ond roedd y Prif Weinidog yn credu y byddai'r trafodaethau yn parhau i fod yn adeiladol.
- roedd datblygiadau byd-eang diweddar, gan gynnwys y newidiadau gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau, yn arwain at ganlyniadau sylweddol. Bydd bwriad Llywodraeth y DU i gynyddu cyllidebau amddiffyn yn arwain at oblygiadau ond gallai hefyd arwain at gyfleoedd i Gymru.
- mae diwygio lles yn cyflwyno heriau. Mae gan Gymru nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl anabl sy'n derbyn Taliadau Annibyniaeth Personol. Mae Trysorlys y DU wedi cael gwybod am yr heriau hyn.

11. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan aelodau:

- pryderon am ddisodli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen am eglurder a sicrwydd sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio yn ogystal â diogelwch swyddi ar ôl 2026 ar gyfer rolau a ariennir gan y Gronfa yn flaenorol.
- yr heriau sy'n wynebu llywodraeth leol a phwysigrwydd lobïo am gyllid teg i Gymru.
- Mae datganoli pwerau a phenderfyniadau i lywodraeth leol ar faterion yn ymwneud â'r economi, trafnidiaeth a chynllunio yn mynd rhagddo'n gyflymach yn Lloegr nag yng Nghymru.
- yr angen am well prosesau cynllunio i alluogi cyflawni canlyniadau cyflymach a gwell ar gyfer twf a chymunedau.
- ceisio sicrwydd ynglŷn ag effaith diwygio lles.
- Effaith costau gofal cymdeithasol a'r angen i wneud penderfyniadau yn agosach at gymunedau.

12. Aeth y Prif Weinidog i'r afael â phob un o'r pwyntiau a godwyd gan aelodau a diolchodd iddynt am y drafodaeth.

## Eitem 3 ar yr agenda – Prosbectws y Cyd-bwyllgor Corfforedig

**Dan arweiniad Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai a'r Cynghorydd Rob Stewart, Dirprwy Arweinydd CLlLC a Llefarydd ar gyfer yr Economi ac Ynni**

13. Agorodd Ysgrifennydd y Cabinet yr eitem trwy nodi mai pwrpas yr eitem oedd trafod uchelgeisiau cyffredin ar gyfer gweithio'n rhanbarthol i helpu i lywio datblygiad prosbectws y Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n cael ei gyd-ddatblygu ar hyn o bryd.

14. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod llywodraeth leol wedi gofyn am sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig, gan gydnabod bod rhai gweithgareddau yn cael eu rheoli'n fwy effeithiol ar lefel ranbarthol, ond eu bod hefyd yn cydnabod nad oes dull 'un maint i bawb' ar gyfer y Cydbwyllgorau.

15. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod rhai rhanbarthau wedi bod yn gefnogol i Gydbwyllgorau Corfforedig arwain twf economaidd rhanbarthol, a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnogi'r uchelgeisiau hyn. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cam nesaf o ddatblygu Cydbwyllgor Corfforedig yn gyfle i lywodraeth leol nodi'r offer a'r pwerau sydd eu hangen i ysgogi uchelgeisiau o'r fath, a fydd wedi'u cynnwys yn y prosbectws.

16. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet i gasgliad trwy roi gwybod i'r aelodau am ei phenderfyniad i ddarparu £200k i bob Cydbwyllgor Corfforedig yn 2025-26 ar gyfer meithrin gallu i gyflawni uchelgeisiau. Byddai cyllid cyfatebol hefyd yn cael ei ddarparu yn 2026-27 a 2027-28.

17. Croesawodd y Cynghorydd Rob Stewart y cyhoeddiad y rhoddir tair blynedd o gyllid i Gydbwyllgorau Corfforedig. Pwysleisiodd yr angen am fframwaith hyblyg, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol ar draws Cymru o ran pa mor gyflym a pha mor bell y bydd pob rhanbarth eisiau mynd gyda Chydbwyllgorau Corfforedig. Cadarnhaodd fod trafodaethau yn digwydd a fyddai'n helpu i lywio'r prosbectws.

18. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan aelodau:
    - yr angen i ddatganoli mwy o bwerau i awdurdodau lleol, pwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol, a sicrhau bod cyllid yn dilyn y pwerau hyn.
    - yr angen i symleiddio cyrff rhanbarthol ac osgoi creu biwrocratiaeth ddiangen. Pwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau a chydweithredu'n ymarferol i arbed arian a gwella effeithlonrwydd.
    - diffyg gallu i gyflawni prosiectau

## Sylwadau i gloi

**Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

19. Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i drafod unrhyw fater arall, ond ni chodwyd unrhyw fater. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r aelodau am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau i'r cyfarfod a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2025.